CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
21 Mawrth 2017, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D Morgan, D Pritchard, D Roberts, W Vaughan, A Williams.	
YMDDIHEURIADAU: Cyng W Williams, A Wyn, D ap Rhobert, R G Parry (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng A Williams eitem 5.5 a 5.6
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 21 Chwefror 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn, Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng C McGregor yn eilio (un cywiriad 7.4 newid Sherrat i Sharrad)
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mewn llaw
4.2	**Damwain sgwar Talwrn** - Mae'r Cyngor Sir yn gobeithio gwneud y gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol
4.3	**Baw ci lôn yr Ysgol -** Mae'r Cyngor Sir am gosod arwyddion ar y lôn
4.4	**Arwyddion baw ci** rhwng Lon Hen Hafod a Lon Penybryn yn Talwrn - Mae'r Cyngor Sir am gosod arwyddion ar y lôn
4.5	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Mae'r Cyngor Sir yn gobeithio gwneud y gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C80N/LB/DIS Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer ryddhau amod(02) (balconi arfaethedig) o ganiatad cynllunio 23C80M/LB/ENF yn The Old Mill, Capel Coch - dim sylwadau
5.2	23C128E Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer cadw offer amaethyddol yn Bryn Poeth, Talwrn - dim sylwadau
5.3	23C280F Plas Llanfigangel, Capel Coch (ymateb y Cyngor Sir). Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir i ddweud bod y Cyngor Cymuned yn siomedig iawn bod y Cyngor heb gwneud dim byd swyddogol i stopio y gwaith
5.4	23C341 Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i 5 annedd a swyddfa, gosod paced trin carthffosiaeth ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau yn Ty Hen, Llanffinan - mae'r mynedfa yn gul a'r ffordd ddim yn addas
	Llofnod…….Cadeirydd 18.04.17

5.5	23C246F/LB Caniatad adeilad rhestredig ar gyfer codi estyniad un llawr ar ochr yr adeilad yn Melin Llanddyfnan, Talwrn - pryder am y sylfaen a'r effaith ar cymdogion
5.6	23C246E Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Melin Llanddyfnan, Talwrn - pryder am y sylfaen a'r effaith ar cymdogion
	Pennaeth Dysgu
5.7	Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 (gwybodaeth yn unig)
	Pennaeth Adnoddau
5.8	Grantiau i fudiadau gwirfoddol 2017/2018 (gwybodaeth yn unig)
	Pwyllgor Safonnau
5.9	Caniatad Arbennig (gwybodaeth yn unig)
	Priffyrdd
5.10	Arbrawf Gorfodaeth (gwybodaeth yn unig) Bydd y Cyngor yn cyflogi cwmni i roi dirwy cosb sefydlog pan fod pobl yn gollwng sbwriel neu'n methu â chlirio baw cwn.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Comisiwn Ffiniau - Arolwg 2018 o etholaethau seneddol yng Nghymru - ail gyfnod ymgynghori. Mae Cyngor Llanddyfnan yn cefnogi Mon/Menai
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	G Hughes £475.00 (llwybrau cyhoeddus)
7.2	Rhoddion blynyddol: Neuadd Talwrn £1000, Ambiwlans Awyr Cymru £100, Y Groes Goch £50, Urdd Rhanbarth Môn £100, Cymdeithas y Byddar £100
7.3	Roundwood Tree Technology £864.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Beth yw polisi y Cyngor Sir ar gosod clogfeini wrth fynedfeydd preswyl - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
8.2	Giat mochyn ar lwybr cyhoeddus rhwng Hen Hafod a Phenbryn angen sylw; nid yw'r giat yn cau, gan fod y fram sydd yn cymryd y giat wedi suddo, ac felly mae'r bachyn methu'r gafael yn llwyr. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.3	Mae coed bach iddew wedi disgyn ar y llwybr pren sydd yng Nghors Plwyf tuag at Gors Bodeilio. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw Cyfoeth Naturiol Cymru
8.4	Mynwent Llanddyfnan - tyrchod daear yn achosi difrod yn y fynwent. Bydd y Clerc yn cael pris am gwneud y gwaith.
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Cyflog y Clerc
10.2	Cynllun Datblygu Lleol
10.3	Ceir yn parcio ar Lon yr Ysgol
	Llofnod…….Cadeirydd 18.04.17